# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 12 Mai 2014** |
| Amser: | **14.30 - 16.02** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_12_05_2014&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Julie James AC**<br>**Eluned Parrott AC**<br>**Simon Thomas AC** |
| Tystion: | **Andrew Jolley, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr** |
| Staff y Pwyllgor: | **P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Alys Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 CLA397 - Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2014

2.2 CLA398 - Rheoliadau Trosglwyddo Swyddogaethau (Bwyd) (Cymru) 2014

2.3 CLA399 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2014.

2.4 CLA396 - Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

## 3 Papur i'w nodi

3.1 Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 4 Tystiolaeth yn ymwneud â'r Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Andrew Jolley, Cadeirydd y Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (Cymru) a Phrif Weithredwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio) a Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat.

5.1 Blaenraglen waith.